Haf 2011

Prifysgol Cymru
University of Wales

Campus

Cylchgrawn Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru



Ymweliad â Chartref EUB Tywysog Cymru

Digwyddiad Cyn-fyfyrwyr Bangalore

Phillippe Bestenheider: Dylunio Diwydiannol

Dathliad Graddio 2011

Graddedigion Er Anrhydedd

Campus

Gyda miloedd o fyfyrwyr yn graddio o dros 120 o wahanol sefydliadau bob blwyddyn, mae Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru yn tyfu'n aruthrol, gan gynyddu cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio.

Jocelyn yw fy enw i a fi yw swyddog newydd Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru. Mae cymaint wedi digwydd eisoes ers i mi ddechrau ym mis Ionawr ac rwy'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen y newyddion diweddaraf dros y tudalennau nesaf.

Er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau yn cael y newyddion diweddaraf am bopeth sy'n digwydd (a hefyd i sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud ei rhan dros yr amgylchedd) rydym ni'n bwriadu anfon y mwyafrif o'n gohebiaeth yn y dyfodol yn electronig - felly mae'n hanfodol ein bod ni'n cael eich cyfeiriad ebost! Gwnewch yn siŵr fod eich manylion yn gywir drwy gofrestru nawr ar www.cymru.ac.uk/cynfyfyrwyr

Os oes gennych chi unrhyw newyddion, ffotograffau neu ddigwyddiadau cyn-fyfyrwyr yr hoffech chi eu rhannu yna byddem ni wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Eich cylchgrawn chi yw hwn a byddwn i'n croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar unrhyw agwedd o'r gwaith hwn, a'r gymdeithas cyn-fyfyrwyr ei hun.

Gan edrych ymlaen at glywed gennych chi,

Jocelyn Keedwell
Swyddog Cyfathrebu (Cyn-fyfyrwyr)

Cynnwys

3 Croeso gan yr Is-Ganghellor

4 Cynhadledd Seiber Ddiogelwch
Y Ganolfan Arloesedd Gwyddelig
Cadair Ymchwil PC

6 Canghennau Cymdeithasau Cyn-fyfyrwyr

8 Ymweliad â Chartref EUB
Tywysog Cymru
Digwyddiad Cyn-fyfyrwyr Bangalore

9 Graddio yn y Canolfannau Wedi Eu Dilysu

10 Dathlu Graddio 2011
Graddedigion Er Anrhydedd

12 Lansio Cyfadran Prifysgol Cymru
Cymrodoriaethau Dysgu PC

13 Y Bardd Elyse Fenton

14 Proffil: Phillippe Bestenheider

15 Proffil: Dr Guto Pryderi Puw
Diweddariad ar Ysgoloriaethau

Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru
Ebost: alumni @cymru.ac.uk
FFôn: +44 (0)29 2037 6999
Gwefan: www.cymru.ac.uk/cynfyfyrwyr
Cyfeiriad: Cofrestrfa'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NS

www.facebook.com/universityofwales

www.twitter.com/uniwales

www.linkedin.com
(Chwilio am Brifysgol Cymru)

Yr Athro Marc Clement, Is-Ganghellor

Croeso'r Is-Ganghellor

Mae wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth; yma yn y DU mae hynny hefyd yn wir bellach am addysg uwch, wrth i'r sector barhau i geisio ymdopi â ffioedd dysgu a'r gwahanol ddisgwyliadau sydd gan eu hamrywiol randdeiliaid. Yr unig sicrwydd yn ôl pob golwg yw newid.

Mae newid yn arbennig o uchel ar agenda addysg uwch yng Nghymru, lle mae sefydliadau prifysgol yn cael eu hannog i agosáu at ei gilydd er mwyn bod mor effeithiol â phosibl yn yr hinsawdd heriol gyfredol. Mewn ymateb i'r alwad hon, mae Prifysgol Cymru'n gweithredu, gyda phartneriaid yn ei chynghrair, i greu sefydliad ehangach a fydd yn cyfoethogi profiad y myfyriwr, cryfhau gweithgaredd academaidd ac adeiladu statws byd-eang Cymru. Os bydd y symudiad hwn yn llwyddo, bydd y Brifysgol Cymru fwy o faint mewn sefyllfa ddelfrydol i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, gan bontio ffiniau addysgol drwy weithio gyda phartneriaid addysg bellach a chefnogi datblygiad busnes drwy raglenni deor a chydweithio ymchwil.

Mae newidiadau cadarnhaol hefyd ar waith o fewn eich sefydliad cyn-fyfyrwyr, yn enwedig penodi Swyddog Cyn-fyfyrwyr penodol i wella'r gwasanaeth y gallwn ni ei gynnig i gyn-fyfyrwyr. Maes arall o newid yw'r angen i sicrhau ein bod mor wyrdd â phosib - er bod hyn yn golygu mai cyhoeddiad electronig fydd Campus yn bennaf yn y dyfodol, rydym ni'n hapus iawn i anfon copi print at unrhyw un sy'n holi amdano.

Mae'r rhifyn hwn o Campus yn llawn erthyglau am rai o'r datblygiadau a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnal yn eich Prifysgol yn ystod y flwyddyn. Rydym ni wedi ceisio cynnwys rhywbeth at ddant pawb, o ymweliad gan fyfyrwyr i gartref EUB Tywysog Cymru, Canghellor y Brifysgol, i ddarlleniad barddoniaeth gan enillydd Gwobr Dylan Thomas a noddir gan y Brifysgol, i'n cyn-fyfyrwyr diweddaraf yn mwynhau dathlu eu gradd. Gobeithio y cewch flas ar ddarllen am bob un ohonyn nhw.

Cofrestrfa Prifysgol Cymru

MIT a Phrifysgol Cymru

yn creu partneriaeth i ddatblygu ymchwil ac addysg seiber-ddiogelwch

Yr Athro John Williams, MIT (canol) gyda'r Athro Marc Clement a'r Athro Dylan Jones-Evans, Prifysgol Cymru

Ym mis Mawrth, llofnododd Prifysgol Cymru gytundeb â'r Ganolfan Ddata Geo-ofodol (GDC) yn Isadran System Peirianneg Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT) i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu datrysiadau ar gyfer ymchwil ac addysg seiber ddiogelwch.

Y cytundeb yw un o brif ganlyniadau uwchgynhadledd bwysig o academyddion blaenllaw o rai o brif brifysgolion y byd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd i drafod materion allweddol yn y maes hynod bwysig hwn sy'n tyfu'n gynyddol. Gydag academyddion blaenllaw o rai o brif brifysgolion y byd megis Prifysgol Harvard a Phrifysgol Rhydychen yn bresennol, cyfarfu'r cynrychiolwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gynnal yr uwchgynhadledd gyntaf erioed ar y gadwyn gyflenwi seiber-ffisegol geo-ofodol, a drefnwyd gan Brifysgol Cymru.

Yn ymuno â nhw yno roedd cynrychiolwyr o'r Cenhedloedd Unedig, Adran Amddiffyn yr UDA, Northrop Grummann, Microsoft, IBM a Sonalysts.

Trefnwyd yr uwchgynhadledd gan Academi Fyd-Eang Prifysgol Cymru a Chanolfan Ddata Geo-ofodol MIT, a thrafodwyd agweddau penodol o'r bygythiad seiber ddiogelwch, gan gynnwys diogelwch amgylcheddol, rheoli'r gadwyn gyflenwi a chyfrifiadura perfformiad uchel.

Roedd yr Athro Marc Clement, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, wrth ei fodd fod Prifysgol Cymru yn cynnal y digwyddiad unigryw ac arloesol hwn gyda chydweithwyr yn MIT, ac roedd yn ei weld yn gamp arbennig i Gymru:

"Rhan o genhadaeth yr Academi Fyd-Eang yw dod â'r gorau o'r Byd i Gymru, ac rydym ni wedi mwynhau digwyddiad gwych dros y deuddydd diwethaf a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r drafodaeth ar bwysigrwydd cynyddol seiber ddiogelwch ym mhob agwedd o'n bywydau."

Yn dilyn y digwyddiad, dywedodd yr Athro John Williams, Cyfarwyddwr Canolfan Ddata Geo-ofodol MIT:

"Mae hon wedi bod yn uwchgynhadledd hynod o lwyddiannus. Casgliad y gynhadledd oedd bod angen tîm amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â phroblemau seiber ddiogelwch ac y byddai'n rhaid i'r DU a'r UDA gynhyrchu miloedd o arbenigwyr yn y maes dros y blynyddoedd nesaf. Dyna pam fod y Ganolfan Ddata Geo-ofodol yn MIT a Phrifysgol Cymru wedi llofnodi cytundeb i ddatblygu datrysiadau ar gyfer arweinyddiaeth a hyfforddiant diogelwch seiber ar y cyd, cytundeb a fydd yn gosod Cymru ar y blaen o ran datblygiadau yn y maes hwn."

"cytundeb a fydd yn gosod Cymru ar y blaen o ran datblygiadau yn y maes hwn."

Dr Andrew Martin yn siarad yn y gynhadledd

Canolfan Ddata Geo-ofodol, MIT

Swyddfa Arloesedd Cymru i agor yn Silicon Valley

Mewn cam a fydd yn gwthio cwmnïau arloesol Cymru i galon marchnad cyfalaf menter yr Unol Daleithiau, cyhoeddodd Prifysgol Cymru ym mis Mai ei bod yn agor swyddfa yn San Jose, 'prifddinas' hunanhonedig Silicon Valley.

Gwahoddwyd Prifysgol Cymru gan yr Irish Innovation Centre (IIC), sefydliad sy'n lansio busnesau Gwyddelig newydd yn Silicon Valley, i ymsefydlu o fewn y ganolfan gan dalu teyrnged i etifeddiaeth Geltaidd ac ysbryd entrepreneuraidd gyffredin.

Ynghyd â'i sefydliad cyswllt, Irish Technology Leadership Group (ITLG), mae'r Ganolfan yn cynnig cyfoeth o adnoddau i gwmnïau technoleg sy'n gwneud y trawsnewid anodd ar draws yr Iwerydd, yn cynnwys swyddfeydd, cymorth cyfreithiol a gweinyddol a chefnogaeth cyfryngau/cysylltiadau cyhoeddus.

Roedd John Hartnett, sylfaenydd yr IIC a phrif weithredwr ITLG, yn croesawu penderfyniad Prifysgol Cymru i leoli swyddfa yn Silicon Valley:

"Mae cysylltu cwmnïau technoleg o Gymru gyda Silicon Valley yn hanfodol i sbarduno arloesedd Cymru. Mae Silicon Valley yn gartref i gwmnïau technoleg mwya'r byd yn ogystal â bod yn brif leoliad ar gyfer cyllid cyfalaf menter. Mae Cymru bellach yn rhan o hyn gyda menter Prifysgol Cymru'n sefydlu troedle iddi ei hun yng nghanol San Jose."

Fe wnaeth cysyniad yr IIC argraff ar yr Athro Dylan Jones-Evans, Cyfarwyddwr Menter ac Arloesedd Prifysgol Cymru, pan glywodd amdano gyntaf, ac roedd yn credu y dylai Cymru gael sefydliad cyfwerth. Wrth sôn am y fenter newydd dywedodd yr Athro Jones-Evans;

"Bydd yn swyddfa i Gymru, i fusnes Cymru ac i gwmnïau uwch-dechnoleg sydd am gael presenoldeb yn Silicon Valley. Ein nod yw cael troedle i Gymru yn yr ardal trwy weithio'n agos gyda'r Irish Innovation Centre i helpu nifer o gwmnïau i fynd draw yno a gweld sut mae pethau'n gweithio. Os byddwn ni'n llwyddiannus, yna efallai y bydd hi'n bosib atgynhyrchu'r cysyniad i gwmnïau o Gymru."

Penodi Cadair Ymchwil PC ym Mhrifysgol Glyndŵr

Ym mis Medi y llynedd, cyhoeddwyd mai'r Athro Richard Day o Brifysgol Glyndŵr oedd yr ail unigolyn i dderbyn Cadair Ymchwil Prifysgol Cymru.

Mae'r Athro Day, sydd â graddau o Brifysgolion Bryste a Llundain, yn gweithio yn yr 'Advanced Composite Training and Development Centre', partneriaeth rhwng Airbus, Prifysgol Glyndŵr; Coleg Glannau Dyfrdwy a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sicrhaodd yr Athro Day radd PhD mewn Ffiseg o Lundain cyn symud i Brifysgol Manceinion lle treuliodd 23 o flynyddoedd yn yr Ysgol Deunyddiau.

Mae noddi'r Gadair Ymchwil yn rhan o amcan Prifysgol Cymru o gefnogi lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol Cymru. Bydd yn cefnogi'r gwaith o adeiladu a gwella gallu ymchwil addysg uwch yng Nghymru.

Dywedodd yr Athro Day wrth dderbyn Cadair Ymchwil Prifysgol Cymru:

"Rwyf wrth fy modd i dderbyn y fraint hon yn dilyn fy mhenodiad diweddar ym Mhrifysgol Glyndŵr. Yn dilyn amcanion Prifysgolion Cymru a Glyndŵr mae fy niddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddiwydiant. Rwyf i'n edrych ymlaen at weithio ag amrywiaeth eang o ddiwydiannau yng Nghymru i ddatblygu cyfansoddion er budd yr economi."

Traddododd yr Athro Day ei ddarlith sefydlu fel Athro Ymchwil Prifysgol Cymru ym mis Chwefror gan gymryd ei le ymysg siaradwyr nodedig eraill yng Nghyfres Darlithoedd Proffesiynol 2010/11 Prifysgol Glyndŵr. Roedd y ddarlith yn trafod hanes deunydd cyfansawdd a ddefnyddir mewn awyrennau, o'r Wright Flyer i awyrennau mawr modern.

Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr - Canghennau ac Adrannau

Gyda myfyrwyr mewn dros 120 o ganolfannau cydweithredol yn y DU ac yn rhyngwladol, mae cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru i'w gweld mewn sawl proffesiwn ar draws y byd, yn llunio rhwydwaith cyn-fyfyrwyr gwerthfawr a rhyngwladol yng ngwir ystyr y gair.

O fewn y sefydliad, mae nifer o ganghennau ac adrannau cyn-fyfyrwyr yn y DU a thramor. Bwriad y canghennau hyn yw helpu i feithrin cyfathrebu rhwng y Brifysgol a'i chyn-fyfyrwyr. Maent yn creu cymuned leol sy'n darparu cysylltiadau i gyn-fyfyrwyr sy'n symud i'r ardal, a chyfleoedd i rwydweithio mewn digwyddiadau cymdeithasol.

Mae'r Brifysgol yn awyddus i gynnal cysylltiad gyda'n holl gyn-fyfyrwyr, ble bynnag y maen nhw yn y byd, yn eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a theimlo'n rhan o gymuned ryngwladol ehangach. I'r perwyl hwn, rydym yn weithredol yn annog ffurfio canghennau cyn-fyfyrwyr.

Os nad oes cangen cyn-fyfyrwyr rhyngwladol wedi ei sefydlu yn eich ardal chi ac os hoffech sefydlu un, neu os ydych yn rhan o gangen weithredol sydd heb ei rhestru, cysylltwch â alumni@cymru.ac.uk am wybodaeth a chyngor pellach.

Canghennau sy'n bodoli eisoes

Canghennau Rhanbarthol y DU
- Bangor
- Caerfyrddin
- Lerpwl
- Abertawe

Canghennau Rhyngwladol
- Yr Almaen
- Yr Eidal
- Sri Lanka
- Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica

Adrannau Cysylltiedig â Phwnc (wedi eu lleoli'n y DU)
- Clasuron
- Diwylliant y 18 a'r 19 ganrif
- Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin
- Athroniaeth
- Diwinyddiaeth

Ceir manylion ar gyfer cysylltu â'r canghennau hyn ar y wefan ar www.cymru.ac.uk/cynfyfyrwyr

Ffocws:
Cangen yr Almaen
Helmuth W Stahl

O leiaf unwaith y flwyddyn mae ein holl aelodau, dros 200 ohonynt ar hyn o bryd, yn dod at ei gilydd. Dresden oedd y lleoliad eleni ar 9 Ebrill. Rydym ni'n galw'r digwyddiad yn gynhadledd am ei fod yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau am faterion yn ymwneud â busnes gan siaradwyr uchel eu parch yn ystod y dydd, ac yn dilyn hynny ceir digwyddiad mwy cymdeithasol gyda'r nos mewn lleoliad sy'n cael ei ddewis am ei awyrgylch.

Cafwyd y cyflwyniad cyntaf gan Mr Andreas Grünewald, pennaeth Clwb Buddsoddi Münchener, ar ddatblygiadau byd-eang mewn materion ariannol. Trwy gydol y cyflwyniad pwysleisiodd bwysigrwydd China ym mhob pob agwedd yn y dyfodol. Roedd yr ail bwnc yn ymwneud â'r nifer fechan o ferched sy'n brif weithredwyr yng nghwmnïau mwyaf yr Almaen. Cyflwynodd Mrs Gabriele Stahl, Partner yn Odgers Berndtson, ei chanfyddiadau, a arweiniodd at drafodaeth fywiog.

Pwnc olaf y gynhadledd eleni oedd "Bridging new shores" oedd yn disgrifio datblygiadau mewn teithio i'r gofod. Fe'i cyflwynwyd gan beiriannydd y mae ei gwmni'n arbenigo mewn datrysiadau unigryw ar gyfer Asiantaeth Gofod Ewrop, ac a siaradodd am anghenion gofodwyr sy'n byw mewn amgylchedd hollol artiffisial pan fyddant yn y gofod.

Gorffennodd y diwrnod ar uchafbwynt arall; daeth pawb at ei gilydd yn y gwesty hanesyddol Taschenbergpalais ac i ddilyn cafwyd swper arbennig (dathliad o gyfnod Awgwstws y Cadarn) yn y Sophienkeller enwog.

Digwyddiad pwysig arall ar gyfer yr holl raddedigion newydd o'r Almaen (ar ôl y Dathliad Graddio swyddogol yng Nghanolfan y Mileniwm ar ddydd Gwener 6 Mai 2011) oedd parti croeso gyda'r nos yn Henry's Bar & Cafe yng nghanol Caerdydd, oedd wedi ei drefnu gan Allfinanz Akademie a'n Clwb Cyn-fyfyrwyr.

Helmuth W Stahl

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â Changen yr Almaen ar ei gwefan - www.alumni-wales.de

Newyddion y Canghennau a'r Adrannau

Abertawe - Cynhaliodd cangen Abertawe ei chyfarfod cinio blynyddol yn Neuadd Sgeti ym mis Mai. Yn dilyn y cinio, cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth Cyfathrebu Prifysgol Cymru, Shone Hughes. Rhannodd Mr Hughes y newyddion am ddigwyddiadau diweddaraf y Brifysgol, a chynlluniau posib i'r dyfodol, gyda'r aelodau.

Diwylliant y 18 a 19 Ganrif - Cynhaliodd yr adran ei chynhadledd flynyddol yng Ngregynog ym mis Gorffennaf. Roedd y gynhadledd undydd yn seiliedig ar y thema 'Y Diwygiad Methodistaidd a'r Cyntaf Ordeiniedig ym 1811' ac roedd nifer o siaradwyr proffil uchel a gwybodus yn bresennol.



Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin - Mae gweithgaredd diweddar wedi canolbwyntio ar gyhoeddi dwy gyfrol o'r casgliad ac astudiaeth o lên gwerin yng Nghymru o'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Caiff y cyfrolau, sydd mewn cyfres o'r enw *Gwerin Gwlad,* eu golygu gan E. Wyn James a Tecwyn Vaughan Jones a chânt eu cyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch. Derbyniodd y gyfrol gyntaf, a gyhoeddwyd yn 2008, adolygiadau clodwiw ac roedd yn cynnwys traethodau gan enwau amlwg ym myd astudiaethau ethnoleg yng Nghymru. Yn wreiddiol, roedd y traethodau hyn yn ddarlithoedd i'r Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin. Mae'r ail gyfrol, y bu disgwyl mawr amdani, ac sy'n parhau'r hanes o'r Oes Fictoraidd at waith Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, i fod i ymddangos yn hwyr yn 2011.

Diwinyddiaeth – Cynhaliodd yr Adran Ddiwinyddiaeth gynhadledd haf ym mis Mai ble traddodwyd darlith gan y Parchedig Athro Densil Morgan o Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant yn Y Coleg Gwyn, Bangor.

Yr Eidal - Diolch i frwdfrydedd Ms Hellen Vera Chilelli, sy'n raddedig o Brifysgol John Cabot yn Rhufain, mae cangen ar gyfer cyn-fyfyrwyr Eidalaidd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Gwahoddir holl aelodau cymdeithas cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru i ymuno.

Caerfyrddin - Cynhaliwyd y ddarlith flynyddol ar y cyd gyda Phrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant ym mis Mai gyda darlith gan yr Athro Medwin Hughes, Is-Ganghellor y Brifysgol. Mewn darlith yn dwyn y teitl "Prifysgol newydd i Gymru", eglurodd Dr Hughes y camau sydd eisoes wedi eu cymryd a'r datblygiadau pellach a ragwelir gyda ffurfio Prifysgol Cymru newydd, gydag ethos, cwricwla a dyheadau sy'n gweddu i'r 21 ganrif.

Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica Ym mis Mai, cyhoeddwyd bod cangen o'r Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr i gael ei ffurfio yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Mae'r gangen yn dal yn y camau cynnar a gofynnir i gyn-fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn cofrestru gysylltu â Lokesh Mishra (tmlokesh@hotmail.com). Bydd aelodau'n gallu derbyn y newyddion addysg diweddaraf a manteisio ar amryw o gyfleoedd adloniant a rhwydweithio corfforaethol .

Bangor - Edrychwn ymlaen at groesawu gwesteion i ddigwyddiad a gynhelir yn stondin Prifysgol Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam rhwng 1.30 a 3.30pm (darlith yn dechrau am 2.30pm) ar ddydd Mawrth 2 Awst. Canolbwynt y sesiwn fydd darlith gan yr Athro R. Gareth Wynn Jones. Testun y ddarlith fydd yr Athro Charles Evans FRS, a sefydlodd yr Adran Biocemeg ym Mhrifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ble y gwnaeth ef a'i wraig, Dr Antice Evans waith ymchwil arloesol ar y cysylltiad rhwng cancr a rhedyn yng ngogledd Cymru. Er iddo dderbyn yr anrhydedd fwyaf y gall gwyddonydd ei derbyn ym Mhrydain, sef ei wneud yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol, ni chollodd ddim o'i nodweddion cynhenid fel Cymro glew a chymeriad lliwgar o gefn gwlad Arfon.

Yr Athro Charles Evans

Trigain mlynedd o glasuron

Yr Athro Ceri Davies

Mae 2011 yn flwyddyn nodedig yn hanes yr Adran Glasuron wrth i ni ddathlu ein pen blwydd yn drigain oed.

Cafodd Adran y Clasuron ei sefydlu mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 1951, gyda'i nod o hyrwyddo a chynnal diddordeb mewn diwylliant Groegaidd a Rhufeinig trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnwyd darlithoedd yn rheolaidd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol a threfnwyd cyrsiau undydd a sgyrsiau ar gyfer ysgolion unigol. Cafwyd cydweithrediad gyda chymdeithasau eraill mewn cyfarfodydd a chynadleddau, ac ers 2007 mae'r Adran wedi cyfarfod yn flynyddol am ddiwrnod o gyrsiau a thrafodaethau yng Ngregynog.

Mae'r Adran hefyd wedi hyrwyddo a noddi cyhoeddiadau, yn dechrau yn 1954 gyda Straeon Tad Hanes, blodeugerdd o waith Herodotus wedi ei gyfieithu gan yr Athro T. Hudson-Williams. Cyhoeddiad mwyaf uchelgeisiol yr Adran oedd y Geiriadur Lladin-Cymraeg yn 1979, cyfrol 800 tudalen wedi ei golygu gan Huw S. Thomas.

Bu'r Adran yn lwcus o'i harweinwyr o'r dechrau. Ei Llywydd cyntaf oedd Syr Emrys Evans, a gaiff ei gofio'n bennaf am ei fersiynau Cymraeg o nifer o weithiau pwysicaf yr athronydd Plato. Y person a sicrhaodd sefydlu'r Adran, ac a weithiodd fel ei phrif hwylusydd am nifer o flynyddoedd, oedd yr Athro J. Gwyn Griffiths. Ef oedd Ysgrifennydd cyntaf yr Adran o 1951 hyd 1972, ac yna cafodd ei ethol yn Llywydd, swydd a ddaliodd hyd 1992.

Bydd yr Adran yn dathlu ei phen blwydd yn drigain oed mewn cyfarfod arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Bydd y cyfarfod dathlu'n cael ei arwain gan y Llywydd presennol, Mr John Ellis Jones sydd wedi bod yn swyddog yn yr Adran ers ei sefydlu, yn gwasanaethu fel Trysorydd am dros ddeugain mlynedd, ac yn Llywydd egniol ers 1992.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb sy'n dymuno ymuno â ni yn ein dathliadau yn Wrecsam. Cynhelir y cyfarfod ym Mhabell y Cymdeithasau (Rhif 2) dydd Llun 1 Awst am 12.00.

Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn croesawu ei fyfyrwyr i'w gartref

Ym mis Ebrill, gwahoddwyd myfyrwyr sy'n astudio tuag at raddau Prifysgol Cymru i gwrdd â'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn ei gartref Cymreig, Llwynywermod, ger Myddfai yn Llanymddyfri.

Fel Canghellor Prifysgol Cymru, mae'r Tywysog yn cadw cysylltiad cryf gyda'r Brifysgol a'i myfyrwyr drwy wahodd nifer o ddarpar ysgolheigion i'w gartref pob blwyddyn, er mwyn dysgu mwy am eu hastudiaethau a'u gobeithion at y dyfodol.

Bob blwyddyn, mae prifysgolion Cymreig sy'n cynnig graddau Prifysgol Cymru yn enwebu myfyrwyr i gwrdd â'u Canghellor. Eleni, roedd y myfyrwyr yn cynrychioli Prifysgol Fetropolitan Abertawe, UWIC, Prifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth.

Ar ôl cwrdd â'r Tywysog dywedodd, Aldo Tagliabue, myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe:

"Roedd cwrdd â'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn brofiad gwych. Roedd yn ddyn hynaws iawn â meddwl agored. Roedd ganddo ddiddordeb amlwg ymhob un ohonon ni. Roedd yn ddiffuant iawn. Byddaf yn cofio'r digwyddiad hwn am byth."

Dywedodd Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Yr Athro Marc Clement: *"Mae gan Ei Uchelder Brenhinol, yn rhinwedd ei rôl fel Canghellor y Brifysgol, ddiddordeb byw yn ein holl weithgareddau. Rydyn ni wrth ein bodd bod myfyrwyr o Brifysgol Cymru yn cael cyfle i gwrdd ag ef yn ei gartref yng Ngorllewin Cymru ac i siarad ag ef am eu profiadau yn y brifysgol ac am eu gobeithion i'r dyfodol."*

"Byddaf yn cofio'r digwyddiad hwn am byth"

Cryfhau cysylltiadau rhwng cyn-fyfyrwyr yn Bangalore

Cynhaliwyd yr ail Dderbyniad Cyn-fyfyrwyr a Rhwydweithio yng Ngwesty'r Leela Palace Kempinksi yn Bangalore, India ym mis Mawrth, dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Daeth dros 130 o aelodau cymdeithas cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru at ei gilydd, wedi teithio o bob rhan o Dde India i fod yn bresennol. Cawson nhw gyfle gwych i rwydweithio gyda chynrychiolwyr addysg, busnes a diwydiant.

Croesawyd pawb gan Rebecca Fairbairn, Dirprwy Bennaeth y Genhadaeth yn yr Uchel Gomisiwn Brydeinig, a'r prif siaradwr oedd Dr Peter Noyes, Cadeirydd Consortiwm Rhyngwladol Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Casnewydd.

Cyfrannodd Gwesty'r Leela Palace ginio godidog. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ennill gwobrau yn cynnwys crys rygbi Cymru, wedi ei arwyddo gan y tîm Cymreig. Roedd pawb yn frwd dros gael eu cynnwys mewn lluniau "Tîm Cymru" gafodd eu tynnu yn ystod y noson.

Dywedodd Om Jain, un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, ac un a enillodd wobr yn y gystadleuaeth: *"Roedd bod yn y digwyddiad hwn yn gyfle gwych. Rydw i'n hynod falch o fod yn un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, gan fod y gymdeithas yn cysylltu pobl â'i gilydd, a hefyd yn hybu'r berthynas rhwng ein gwledydd".*

Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn ac yn gyfle ardderchog i bawb oedd yno. Dywedodd Virginia West, Cyfarwyddwr Consortiwm Rhyngwladol Cymru: *"Roedd gweld cynifer o gyn-fyfyrwyr o brifysgolion Cymru yn dod at ei gilydd yn y derbyniad yn hyfryd. Roedd yn bwysig iawn o ran cwrdd â phobl o fyd busnes, ac roedd e'n llawer o hwyl hefyd. Roedden ni i gyd yn siomedig pan ddaeth y noson i ben tua chanol nos".*

Seremoniau Graddio Rhyngwladol

Graddedigion RITS

Parexel-Akademie

Llywydd MDIS gyda'r Athro Palastanga

Management Development Institute of Singapore (MDIS)

Roedd ein Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Uchafu, yr Athro Nigel Palastanga, yn Singapore fis Tachwedd diwethaf i rannu yn nathliadau graddio myfyrwyr llwyddiannus Prifysgol Cymru yn MDIS.

Gwelodd gwahoddedigion a theuluoedd dros 100 o fyfyrwyr yn derbyn eu sgroliau cyflawniad academaidd yn yr Orchard Hotel yn Singapore, ble y cawson nhw a'r Athro Palastanga eu croesawu gan Lywydd MDIS Dr Eric Kuan, a'r gwestai anrhydeddus Mr Zainudin Nordin, Maer Canol Singapore ac Aelod Seneddol Bishan-Toa Payoh GRC.

Roedd yr Athro Palastanga yn hynod o falch o'r safon academaidd uchel a gynhelir gan MDIS a Phrifysgol Cymru. Roedd ganddo glod i'r myfyrwyr hefyd a dywedodd:

"Mae'r anrhydedd fwyaf yn perthyn i chi'r myfyrwyr. Mae eich cyraeddiadau sylweddol chi'n golygu y gallwch chi, ynghyd â'ch teulu a ffrindiau, fod yn hynod o falch heddiw".

Gorffennodd y seremoni gyda chawod o gonffeti, a ddilynwyd gan sesiwn tynnu lluniau a chinio.

Sefydliad Ymchwil Prifysgol Tsinghua yn Shenzen (RITS), Tsieina

Ymunodd Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Uchafu'r Brifysgol, yr Athro Nigel Palastanga yn nathliadau graddio Sefydliad Ymchwil Prifysgol Tsinghua yn Shenzen (RITS) ym mis Tachwedd. Ymunodd yr Athro Palastanga gyda staff RITS, Penny Peng ac Anny Song, i groesawu myfyrwyr oedd wedi llwyddo i gwblhau eu hastudiaethau MBA i Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru.

Roedd yn ddiwrnod llawen iawn, yn llawn lliw a dathlu.

Parexel Akademie, Berlin

Cafwyd dathliadau graddio yn ddiweddar i fyfyrwyr cyntaf Prifysgol Cymru yn Parexel Akademie Berlin, ble y llwyddodd y myfyrwyr i gwblhau BSc mewn ymchwil clinigol

Yn bresennol roedd Dr Roger Marshall, cynrychiolydd a Safonwr Prifysgol Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr nodedig o ddiwydiant fferyllol yr Almaen a staff academaidd Parexel Akademie.

Arweiniwyd y gweithgareddau gan Dr Heidrun Bruchmann, Cyfarwyddwr yr Akademie, a soniodd yn ei haraith agoriadol am ei hoffter mawr o'r myfyrwyr y bu'n eu harwain ac y bu'n poeni amdanynt trwy gydol eu hastudiaethau.

Siaradodd y cynrychiolwyr dosbarth, Anne Koester a Cédric Lingfeld, yn gynnes am y cwrs a'i ddylanwad ar eu datblygiad:

"Rydym yn teimlo'n falch o fod yn rhan o rywbeth newydd, heriol a chyffrous. Hoffem ddiolch i'r staff am yr holl gefnogaeth yr ydym wedi ei dderbyn ac am ein helpu i ddatblygu'n bobl ifanc broffesiynol gyda gwybodaeth gadarn o ymchwil clinigol."

Cydnabu Dr Ulf Schneider (Uwch Ddirprwy Ganghellor a Phrif Swyddog Gweinyddol Parexel) waith caled ac ymroddiad yr holl dîm a dymunodd yrfa hir a llwyddiannus i'r myfyrwyr.

Roedd pawb oedd yn bresennol yn cytuno ei fod wedi bod yn achlysur gwych oedd yn ddathliad teilwng o holl waith caled y staff a'r myfyrwyr.

“Roedd hwn yn ddigwyddiad gwirioneddol ryngwladol. Roedd yn gyfle i unigolion ddathlu eu llwyddiant o flaen cynulleidfa ryngwladol ac roedd yn hwb moesol i mi ddatblygu fy ngyrfa broffesiynol.”
Dammika Liyanage, Un o raddedigion Prifysgol Cymru



Dathliad Graddio 2011

Ymunodd dros 1,000 o raddedigion a’u gwesteion â Phrifysgol Cymru i nodi diwedd eu hastudiaethau mewn dathliadau graddio yng Nghaerdydd a Llundain.

Ddydd Gwener, 6 Mai, daeth ysgolheigion o bedwar ban byd i Ganolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

Gyda’r Parchedicaf Ddr Barry Morgan, Archesgob Cymru a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Cymru yn llywyddu, cyfarchwyd pob myfyriwr yn unigol gan yr Is-Ganghellor yr Athro Marc Clement, ynghyd â Chadeirydd Cyngor y Brifysgol ac uwch swyddogion eraill Prifysgol Cymru.

Cafodd y seremonïau eu ffrydio’n fyw ar dudalennau gwe’r Brifysgol hefyd gan ganiatáu i gyfeillion a theuluoedd nad oeddent yn gallu teithio i Gaerdydd weld llwyddiant eu ceraint ar y llwyfan.

Graddedigion er Anrhydedd Prifysgol Cymru 2011

Oherwydd poblogrwydd y dathliadau, trefnwyd seremoni ychwanegol y diwrnod canlynol yn Llundain ar gyfer graddedigion Coleg Busnes Kensington (KCB). Ymgasglodd dros 400 o raddedigion yn neuadd hanesyddol y Seiri Rhyddion yn Llundain.

Teithiodd graddedigion i'r ddau ddathliad o amrywiaeth eang o wledydd. Mae'r cynulliad amlddiwylliannol yn tystio i gysylltiadau rhyngwladol cryf y Brifysgol. Ers dechrau'r cynulliad ym 1998 mae wedi parhau i dyfu wrth i raddedigion a'u teuluoedd a'u cyfeillion ar draws y byd ymgasglu i fwynhau'r dathlu.

Peidiwch ag anghofio – Cofrestrwch eich cyfeiriad ebost i sicrhau eich bod yn derbyn gohebiaeth yn y dyfodol gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru. Ewch i www.cymru.ac.uk/cynfyfyrwyr

Fel rhan o'r dathliadau graddio, croesawodd Prifysgol Cymru ddau ffigur blaenllaw Cymreig i Ganolfan Mileniwm Cymru. Derbyniodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Thomas a chyn bennaeth yr HSBC a'r cyllidwr Dyfrig John CBE raddau er anrhydedd i gydnabod eu cyflawniadau a'u gwasanaeth i'w meysydd.

Ar ôl astudio'r Gyfraith yng ngholeg Trinity Hall, Caergrawnt, dechreuodd yr Arglwydd Ustus Thomas ei yrfa fel Cymrawd y Gymanwlad yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Chicago. Dros y blynyddoedd dilynol gwnaeth enw iddo'i hun fel Cwnsler y Frenhines a Barnwr yn Uchel Lys Cymru a Lloegr cyn cael ei ethol yn Llywydd Rhwydwaith Cynghorau Barnwriaeth Ewrop.

Yr Arglwydd Ustus Thomas (canol)

Daw Dyfrig John yn wreiddiol o Grymych yn Sir Benfro, ac mae wedi cael gyrfa ryngwladol ym maes bancio dros 38 o flynyddoedd. Ymunodd â Banc HSBC ccc (a adwaenid ar y pryd fel Banc y Midland) dan gynllun hyfforddi graddedigion, a'i swydd ddiwethaf cyn ymddeol ym mis Mehefin 2009 oedd Dirprwy Gadeirydd a Phrif Weithredwr Banc HSBC ccc.

Mae wedi teithio gyda'i waith i India a Malaysia, ac enillodd llawer o anrhydeddau yn ei ddiwydiant gan gynnwys CBE.

Wrth dderbyn ei radd er anrhydedd, dywedodd:
"Ar ôl deugain mlynedd ym maes cyllid yn y DU, UDA, India a Malaysia, mae'n anrhydedd mawr i gael cydnabyddiaeth ar fy nhrothwy fy hun gan Brifysgol Cymru. Roedd yn bleser ac yn falchder enfawr i mi dderbyn y radd hon er Anrhydedd ochr yn ochr â chynifer o fyfyrwyr o wledydd lle'r wyf i wedi gweithio ac ymweld sawl tro. Rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau ar eu gyrfaoedd eu hunain gyda'r hyder yr wyf i'n siŵr y bydd gradd Prifysgol Cymru yn ddi-os yn ei roi iddyn nhw."

Dyfrig John CBE

Sefydlu Cyfadran newydd i gefnogi darpariaeth gydweithredol Prifysgol Cymru

Yng nghanol miri'r dathliadau graddio, casglodd academyddion o amryw o feysydd arbenigedd i lansio Cyfadran gyntaf erioed Prifysgol Cymru

Pennaeth y Gyfadran yw Nigel Palastanga, Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu ac Uchafu'r Brifysgol ac mae'n cynnwys tair ysgol: Celfyddydau a Dyniaethau, Busnes a'r Gyfraith a phynciau STEM. Bydd eu gwaith yn bennaf yn ymwneud â chefnogi darpariaeth gydweithredol y Brifysgol.

Mae Deon yn llywyddu ar bob adran gyda chefnogaeth darlithwyr a staff o fewn y Gyfadran ei hun a hefyd o sefydliadau Cynghrair Prifysgol Cymru sy'n gweithredu fel safonwyr.

Cadeirydd Ysgol y Celfyddydau a'r Dyniaethau yw ei Deon, yr Athro Linden Peach, ysgolhaig sydd wedi ennill ei blwyf mewn astudiaethau llenyddol. Nod yr ysgol yw cefnogi a datblygu addysgu ac ymchwil yn y meysydd hyn drwy'r Brifysgol ac yng nghanolfannau cydweithredol y Brifysgol.

Nigel Foster, cyn Athro Cyfraith Ewropeaidd, yw Deon yr Ysgol Fusnes a'r Gyfraith sydd wedi ei sefydlu i gefnogi 'r gweithgareddau o fewn Busnes a Chyfraith y mae canolfannau cydweithredol y Brifysgol yn ymgymryd â nhw.

Arweinydd yr Ysgol STEM yw Deon Simon Haslett, Athro Daearyddiaeth Ffisegol. Yn Gymrawd etholedig yn y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol a Chymdeithas Ddaearegol Llundain, mae'r Athro Haslett yn gobeithio ategu at weithgaredd Prifysgol Cymru'n dilysu a sicrhau ansawdd yn narpariaeth pynciau STEM.

Gan sôn am y datblygiad cyffrous newydd hwn yn y Brifysgol dywedodd yr Athro Nigel Palastanga;

"Am y tro cyntaf yn ei hanes mae gan Brifysgol Cymru ei staff academaidd ei hun. Rôl y Gyfadran fydd cefnogi ein Canolfannau Cydweithredol niferus a gweithio gyda phrifysgolion yn y Gynghrair i atgyfnerthu addysgu ac ymchwil er budd Cymru."

Cyhoeddi Cymrodyr Addysgu Prifysgol Cymru 2011

I gydnabod eu gwasanaeth i ragoriaeth addysgu dyfernir Cymrodoriaeth Addysgu Prifysgol Cymru eleni i Dr Jo Smedley a'r Athro Cynorthwyol Silvia Pulino.

Mae Dr Smedley, sy'n Ddeon Cysylltiol Dysgu ac Addysgu yn Ysgol Fusnes Casnewydd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, wedi mwynhau gyrfa ym myd addysg uwch sy'n ymestyn dros 25 mlynedd. Bydd yn defnyddio ei harian i ddatblygu prosiectau cefnogi dysgu ar draws rhwydwaith Prifysgol Cymru.

Wrth dderbyn y dyfarniad dywedodd Dr Smedley: "Rwyf i'n credu'n gryf mewn darparu profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr drwy archwilio a gweithredu dulliau dysgu arloesol. Bydd y Gymrodoriaeth hon yn fy helpu i ehangu cwmpas y gwaith hwn."

Ar hyn o bryd, mae Silvia Pulino yn Athro Cynorthwyol mewn Gweinyddu Busnes ym Mhrifysgol John Cabot ac mae hefyd yn cydlynu mewn Canolfan Gwasanaethau Gyrfaol.

Dywedodd yr Athro Silvia Pulino: *"Mae'r dyfarniad hwn yn garreg filltir bwysig yn fy ngyrfa academaidd, ac rwy'n edrych ymlaen at ei ddefnyddio i ddatblygu cwrs ar-lein rhyngweithiol mewn entrepreneuriaeth byd-eang wedi'i anelu at fyfyrwyr di-fusnes. Rwy'n credu'n gryf yn y defnydd o dechnoleg fel modd i chwalu rhwystrau a dod â chymunedau at ei gilydd."*

Sefydlwyd y cynllun i hyrwyddo a chynyddu proffil dysgu ac addysgu Sefydliadau Cynghrair a Sefydliadau Cydweithredol y Brifysgol trwy gydnabod a dathlu unigolion a wnaeth gyfraniad nodedig i brofiad dysgu myfyrwyr.

Yr Athro Silvia Pulino

Dr Jo Smedley

Enillydd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Cymru'n dychwelyd i Gymru

Dechrau mis Mehefin, teithiodd y bardd Elyse Fenton o'i chartref yn nhalaith Philadelphia ar ymweliad sydyn â Chymru lle bachodd ar y cyfle i ymweld â siop Prifysgol Cymru yng Nghaerydydd i ddarllen o'i chasgliad buddugol o gerddi, Clamor. Prin bod digon o le i bawb oedd wedi dod yno i wrando.

Am y cerddi hyn, a ysgrifennwyd pan oedd ei gŵr yn feddyg gyda'r fyddin ar leoliad yn Iraq, yr enillodd Elyse Wobr Dylan Thomas Prifysgol Cymru 2010 - y bardd cyntaf i ennill y wobr o £30,000 ers ei sefydlu yn 2006.

Yn siarad cyn y darlleniad, eglurodd Elyse wrth ei chynulleidfa mai ei chyfaredd gydag iaith oedd yn ei hysbrydoli i ysgrifennu barddoniaeth ac nid unrhyw wrthwynebiad cryf i ryfel.

"Doedd yna ddim rheswm gwleidyddol go iawn dros ysgrifennu'r deunydd hwn" meddai Elyse, "yr iaith sy'n fy nghymell i. 'Doeddwn i ddim hyd yn oed yn talu sylw i'r posibilrwydd o gynulleidfa wrth ei

Elyse Fenton

ysgrifennu, dim ond teimlo angen taer a theimlo bod y deunydd yn fy ysgrifennu i wrth i mi ei ysgrifennu."

Dywedodd yr Athro Peter Stead, sylfaenydd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Cymru:
"Rwyf wrth fy mod fod bardd wedi ennill Gwobr Dylan Thomas o'r diwedd. Fel Dylan, mae gwaith Elyse yn cyfleu delweddau byw a chyfaredd gyda geiriau. Fe gawson ni oleuni pellach ar natur barddoniaeth yn y darlleniad heddiw. Yn wir, ni fyddai dim o hyn yn bosib heb help Prifysgol Cymru; gyda'n gilydd rydym ni'n mynd â Chymru a Dylan Thomas i'r byd, ac yn dod â'r byd i Gymru."

Gan sôn am y cyfleoedd y mae Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Cymru wedi'u rhoi iddi, dywedodd Elyse:
"Rwy'n teimlo'n anesmwyth braidd i fod yn destun sylw rhyngwladol achos nid dyma oedd fy mwriad o gwbl. Mae Gwobr Dylan Thomas wedi dod â darllenwyr rhyngwladol i mi; mae wedi caniatáu i mi feddwl amdanaf fy hun fel ysgrifennwr proffesiynol, rhywbeth nad ydw i erioed wedi gallu ei wneud o'r blaen. Mae'n wefreiddiol a dweud y gwir!"

Y diwrnod canlynol, ynghyd ag enillydd Gwobr Dylan Thomas 2006 Rachel Tresize, rhoddodd Elyse ddarlleniad yng Ngŵyl y Gelli gan ddod â'i hymweliad byr â Chymru i ben. Rhoddodd yr ymweliad y cyfle iddi gyrraedd at fwy o bobl gyda'i gwaith a hefyd i dreulio amser yn Abertawe, a chrwydro ardal mebyd un o feibion llenyddol mwyaf Cymru.

Dylan Thomas
The University of Wales Dylan Thomas Prize

Derbyn ei gwobr yn 2010

"Canfod Dylan"

Mae Dinas a Chyngor Abertawe yn trefnu cystadleuaeth ysgrifennu newydd ar y cyd â Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Cymru.

Mae "Canfod Dylan" yn gyfle i blant ysgol yn Abertawe sy'n gadael yr ysgol gynradd eleni (10-11 oed) rannu profiadau eu plentyndod â'r byd ar ffurf ysgrif, stori, cerdd neu ddyddiadur. Rhaid i'r gwaith, sy'n gorfod bod yn llai na 1,000 o eiriau, ymwneud ag un o'r themâu canlynol; "Fy Haf", "Fy Nhîm", "Fy Abertawe", neu "Fy Nghymru" a bydd yr enillydd yn derbyn taith i Disneyland ym Mharis.

Gan fod cymaint o waith Dylan Thomas yn cynnwys edrych yn ôl yn hiraethus at blentyndod, mae hon yn gystadleuaeth hynod o berthnasol, a bydd hefyd yn codi pwnc pwysig llythrennedd yn ysgolion Abertawe a galluogi i blant fynegi eu syniadau creadigol yn rhydd.

Ceir rhagor o wybodaeth a manylion ymgeisio ar wefan Gwobr Dylan Thomas Prize - www.dylanthomasprize.com/dylaned

Phillippe Bestenheider: Dylunio Diwydiannol

Gyda nifer o'i gyrsiau Meistr yn cael eu dilysu gan Brifysgol Cymru, Academi Domus yw'r ysgol ddylunio ôl-raddedig gyntaf yn yr Eidal. Mae'n denu cymuned hynod ac amrywiol o fyfyrwyr dylunio talentog a brwdfrydig iawn. Mae nifer o'r rhai sydd wedi cwblhau eu Gradd Meistr yn Academi Domus wedi dod yn amlwg ym myd dylunio, ffasiwn a busnes.

Ymysg y rhain mae Philippe Bestenheider, a enillodd Radd Meistr mewn Dylunio Diwydiannol yn 2000. Bellach yn gynllunydd dodrefn uchel ei barch ac adnabyddus, mae Philippe yn treulio'i amser rhwng y Swistir a Milan yn dylunio i gwmnïau'n cynnwys Moroso, de Sede, Pallucco, Fratelli Boffi, Varaschin, Frag a Nilufar Gallery.

Yn enedigol o Sion, y Swistir, graddiodd Philippe yn gyntaf o Sefydliad Technoleg Ffederal y Swistir yn Zurich gyda gradd mewn pensaernïaeth ac fe weithiodd i stiwdios yn y Swistir ac UDA cyn mynd ymlaen i astudio ymhellach yn Academi Domus.

Ar raddio, cafodd swydd gyda'r dylunydd Patricia Urquiola o Sbaen ac roedd yn Uwch Gynllunydd yn ei swyddfa yn Milan hyd 2006 yn dylunio ar gyfer brandiau fel Alessi, Molteni ac Agape.

Yn 2007, sefydlodd ei stiwdio ei hun. Un o'i gleientiaid cyntaf oedd y cwmni dylunio Eidalaidd, Moroso, y dyluniodd y gadair 'Nanook' ar ei gyfer - cynllun graffeg 2D hecsagonal beiddgar, wedi ei blygu'n sedd - a ddenodd lawer o sylw ato yn 2008. Yn ogystal â hyn, yn 2010, enillodd 'Nanook' 'Premio dei Premi', gwobr genedlaethol mewn arloesedd yn yr Eidal sy'n uchel iawn ei pharch ac a gyflwynwyd iddo gan Arlywydd yr Eidal Giorgio Napolitano, ac ym mis Medi 2010 cafodd y gadair ei chynnwys ym Mynegai ADI 2009, casgliad o ddyluniadau arwyddocaol wedi eu dethol gan Y Gymdeithas Ddylunio Eidalaidd.

Mae Phillippe wrth ei fodd gyda systemau geometregol ac mae'n gweld natur a gwyddoniaeth fel ffynonellau ysbrydoliaeth gwych. Mae ganddo gyfoeth o brofiad ym myd dylunio, yn creu casgliadau sy'n wreiddiol ac arloesol ond hefyd yn ymarferol, sydd wedi ei amlygu fel dylunydd hynod o dalentog a chyffrous.

Am ragor o wybodaeth am Philippe Bestenheider a'i gynlluniau, ewch i'w wefan - www.philippebestenheider.com

Mae gwybodaeth bellach ar Academy Domus a'r cyrsiau a gynigir yno ar y wefan - www.domusacademy.com

Buddiannau a Gwasanaethau i Gyn-fyfyrwyr

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r tudalennau ar y wefan ar gyfer cyn-fyfyrwyr. Fel rhan o hyn, rydym yn gobeithio gallu cynnig buddiannau a gostyngiadau ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau a nwyddau.

Hoffem glywed eich barn ar ba fath o fuddiannau a gwasanaethau fyddai'n fwyaf defnyddiol i chi ac yr hoffech i ni geisio'u sicrhau. Yn ogystal, os ydych chi'n teimlo bod gennych wasanaeth neu fudd yr hoffech ei gynnig i gyn-fyfyrwyr eraill yna cysylltwch â ni.

Cysylltwch â alumni@cymru.ac.uk gyda'ch awgrymiadau, sylwadau neu gynigion.

Cymdeithas Golff y Cyn-fyfyrwyr

Mae cynlluniau ar gyfer Cymdeithas Golff i aelodau cyn-fyfyrwyr yn y camau cynnar ar hyn o bryd.

I gofrestru eich diddordeb a chael gwybod am y datblygiadau, cysylltwch â alumni@cymru.ac.uk

Cyfansoddwr Cymreig yn derbyn grant ymchwil

Un o'r bobl a dderbyniodd wobr Cronfa Goffa Thomas Ellis eleni oedd Dr Guto Pryderi Puw. Mae Guto'n cael ei ystyried yn un o gyfansoddwyr mwyaf addawol ei genhedlaeth ac yn berson allweddol yng ngherddoriaeth gyfredol Cymru.

Bellach yn Ddarlithydd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor, astudiodd yno gyda'r cyfansoddwyr John Pickard, Andrew Lewis a Pwyll ap Siôn ac enillodd ei radd MMus yno yn 1996, a PhD mewn cyfansoddi yn 2002.

Penodwyd Guto yn Gyfansoddwr Preswyl cyntaf Cerddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC (BBC NOW) yn 2006 a daliodd y swydd tan 2010. Cyfansoddwyd a datblygwyd tri darn o gerddoriaeth ar raddfa fawr yn ystod cyfnod Guto gyda'r Gerddorfa a chawsant eu perfformio ar draws y wlad. Mae Neuadd Brycheiniog yn Aberhonddu, Neuadd Prichard-Jones ym Mangor, Royal Albert Hall Llundain, a neuaddau cyngerdd yn Modena, Brescia a Bergamo wedi profi swyn ei gerddoriaeth.

Mae ei waith wedi ennill clod eang gan feirniaid cerddorol cenedlaethol; enillodd *Concerto for Oboe* 'Wobr y Gwrandawyr' BBC Radio 3 yng Ngwobrau Cyfansoddwr Prydain yn 2007, ac fe gafodd *Reservoirs* ei enwebu am wobr gan y Gymdeithas Ffilharmonig Frenhinol yn 2005.

Hyd yn ddiweddar nid oedd recordiadau stiwdio o'r gwaith a gyfansoddodd yn ystod ei gyfnod preswyl gyda BBC NOW yn bodoli. Fodd bynnag, mae Guto wedi defnyddio'r £1,500 o rant ymchwil a dderbyniodd yn ddoeth iawn a bellach mae'r recordiad o'i waith gyda BBC NOW wedi ei gwblhau. Bydd y recordiad yn cael ei ryddhau ar label Signum yn y dyfodol agos.

Dywedodd Guto:

"Mae creu CD o fy nghyfansoddiadau cerddorfaol wedi creu casgliad cynhwysfawr o fy ngwaith creadigol diweddar ac mae'n gyfraniad pwysig i'm proffil ymchwil. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb haelioni Prifysgol Cymru."

Yn ogystal â dysgu a chyfansoddi mae Guto'n Gadeirydd a Chyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gerdd Newydd Bangor ac yn arweinydd Côr Cyntaf i'r Felin, côr Cymraeg ei iaith yn Y Felinheli ger Bangor.

Dr Guto Pryderi Puw

Detholiad o ysgoloriaethau a gwobrau ddyfarnwyd gan Brifysgol Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd hon

Ysgoloriaeth Plant Aberfan
Dyfarnwyd yr ysgoloriaeth ym mis Ionawr i enillwyr eleni - Charlotte Elizabeth Donegan, sydd ar hyn o bryd yn astudio gradd mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe; Ruth June Williams, sy'n astudio BA mewn Addysg ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant; a Curtis Colcombe, myfyriwr Chwaraeon ac Addysg Gorfforol yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC). Derbyniodd y tri ohonynt £1000 i'w helpu gyda cham nesaf eu hastudiaethau.

Cronfa Goffa Thomas Ellis
Dyfarnwyd y wobr hon ym mis Ionawr a Mehefin eleni i 3 derbynnydd gwahand o Brifysgol Bangor. Derbyniodd y Darlithydd Cerdd Dr Guto Pryderi Puw £1,500 ym mis Ionawr a derbyniodd Gwawr Ifan, myfyriwr PhD £1,000, hefyd ym mis Ionawr. Dyfarnwyd £750 i Leila Salisbury, sydd hefyd yn gweithio i ennill PhD mewn Cerddoriaeth, ym mis Mehefin.

Gwobr Goffa D Afan Thomas ar gyfer Cerddoriaeth
Dyfarnwyd ym mis Mawrth, aeth y wobr eleni i ddau gerddor eithriadol. Derbyniodd Jordan Price Williams, myfyriwr 3ydd blwyddyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, £1,500 a derbyniodd Gwawr Ifan, myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bangor a chyn-enillydd Cronfa Goffa Thomas Ellis Prifysgol Cymru, £500.

Ysgoloriaeth Deithio Goffa Gareth Jones
Dyfarnwyd yr ysgoloriaeth eleni ym mis Mehefin i Jen-Ping Chiu, a raddiodd o Brifysgol Abertawe, a Jason Edwards, a raddiodd o Brifysgol Aberystwyth . Derbyniodd y ddau ohonynt £3,000 a fydd yn eu galluogi i deithio fel rhan o'u hymchwil a pharhau gyda'u cynlluniau astudio wrth baratoi i weithio ym maes newyddiaduraeth.

Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r holl ysgoloriaethau grantiau a gwobrau a ddyfarnir gan Brifysgol Cymru, yn cynnwys cymwysterau a sut i wneud cais, ar ein gwefan

Ewch i: www.cymru.ac.uk

Prifysgol Cymru
University of Wales

Gwisgwch ef â balchder!

Os ydych yn chwilio am gofarwydd o'ch cyfnod fel un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru neu'n chwilio am anrhegion i ffrindiau a theulu, yna siop Prifysgol Cymru yw'r lle delfrydol i chi.

Mae gan Siop y Brifysgol, ger y castell yng nghanol Caerdydd, ddewis eang o nwyddau o safon uchel fel dillad, gemwaith ac anrhegion yn dangos logo'r Brifysgol.

Yn ogystal â nwyddau, mae'r siop yn fan delfrydol i unrhyw un sy'n hoffi llyfrau, ac i'r rhai mwy academaidd, a gallwch brynu amrywiaeth eang o lyfrau a chylchgronau sy'n cael eu cyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru.

Mae'r siop ar-lein hefyd yn rhoi cyfle i chi brynu fersiwn mwy addurnedig o'ch tystysgrif gradd er mwyn ei arddangos ac fel cofarwydd unigryw o'ch astudiaethau yn y Brifysgol.

Waeth ble'r ydych chi yn y byd, gallwch siopa ar-lein yn ddiogel yn awr ar www.wales.ac.uk/shop

Gall cyn-fyfyrwyr fanteisio ar OSTYNGIAD O 5% ar bob archeb dros £100.00. Defnyddiwch y cod gostyngiad
Alumni ar y ddesg dalu ar-lein.

Hefyd - cynnig unigryw gan Campus - caiff y 50 cyn-fyfyriwr cyntaf i brynu nwyddau o'r siop OSTYNGIAD O 10% ar faint bynnag y byddant yn ei wario. Ewch ar-lein a defnyddio'r cod gostyngiad
Campus50 ar y ddesg dalu ar-lein.

Siop Prifysgol Cymru
12 Heol Fawr
Caerdydd
CF10 1AX
www.cymru.ac.uk/siop

Gyda diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhifyn hwn

Gwerthfawrogir yn fawr gefnogaeth barhaus
Ede & Ravenscroft tuag at gostau cyhoeddi

Golygydd: Jocelyn Keedwell
Dylunio ac Argraffu: Yogi Creative

Peidiwch ag anghofio - Cofrestrwch eich cyfeiriad ebost i sicrhau eich bod yn derbyn gohebiaeth gan Brifysgol Cymru yn y dyfodol. Ewch i www.wales.ac.uk/alumni